# LLŶN YSBRYDOLEDIG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio noddfa Awyr Dywyll Ynys Enlli ac yn creu cwis yn seiliedig ar ennill statws Awyr Dywyll. Maen nhw'n ystyried sut y gallai pobl gael eu hysbrydoli gan yr awyr agored, gan edrych ar y manteision a'r anfanteision ac erthygl ymchwil. Mae dysgwyr yn gwneud fideo neu glip sain un funud o hyd i annog plant ifanc a'u rhieni i chwarae yn yr awyr agored yn amlach.
Maent yn archwilio chwedloniaeth Cymru ac yn ystyried pam mae Ynys Enlli hefyd yn cael ei hadnabod fel 'Ynys yr 20,000 o saint'. Mae dysgwyr yn defnyddio AI i wneud cyfres o ddelweddau i ddarlunio'r stori hon ac yn darllen rhai geiriau i gân a gynhyrchwyd drwy ddefnyddio AI, gan ysgrifennu geiriau eu hunain i drydydd pennill, cyn iddynt osod y geiriau hyn i gerddoriaeth.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o recordio a golygu clip fideo neu sain, e.e. ffôn clyfar, tabled, camera fideo, ac ati.
Dull o chwarae cân, e.e. offerynnau cerdd, bysellfyrddau electronig, ac ati (dewisol).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# PAM FOD AWYR DYWYLL LLŶN YN YSBRYDOLEDIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried noddfeydd Awyr Dywyll ac yn creu cwis yn seiliedig ar ennill statws Awyr Dywyll.

## Sgrîn 3

Hysbyswch y dysgwyr bod Ynys Enlli wedi'i henwi fel y Noddfa Awyr Dywyll Ryngwladol gyntaf yn Ewrop, yn Ebrill 2023. Gofynnwch iddyn nhw wylio'r fideo Ynys Enlli: Island of ancient legends becomes UK's first dark sky sanctuary (bron i 5 munud o hyd) a thrafod yr atebion i'r cwestiynau. Gall dysgwyr wirio'r atebion trwy glicio ar bob cwestiwn.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo Cymraeg a wnaed gan blant i egluro statws Awyr Dywyll: Noddfa Awyr Dywyll Ynys Enlli / Bardsey Island Dark Sky Sanctuary (bron i 3 munud o hyd).

Gwahoddwch nhw i greu cwis yn seiliedig ar y fideo hwn.

TASG 2

# PAM MAE BOD YN YR AWYR AGORED YN YSBRYDOLEDIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried sut y gallai pobl gael eu hysbrydoli gan yr awyr agored ac yn gwneud clip fideo neu sain i annog plant ifanc a'u rhieni i chwarae yn yr awyr agored yn amlach, yn y dasg hon.

## Sgriniau 3-4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o bobl yn cael eu hysbrydoli gan yr awyr agored. Gwahoddwch nhw i edrych ar y ffotograffau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae eich hoff leoedd? Pam mai'r rhain yw eich hoff leoedd?
- Beth sy'n eu gwneud yn arbennig?
- Pam maen nhw'n bwysig i chi?
- Pryd ydych chi'n meddwl am y lleoedd hyn? Pam?
- Beth allwch chi ei weld, ei glywed, ei arogli a'i deimlo yn eich hoff leoedd?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar y clip sain a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei glywed? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble gallai hyn fod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae'r synau hyn yn gwneud i chi deimlo? Pam?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried beth yw manteision ac anfanteision bod yn yr awyr agored, yn eu barn nhw. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol gyda phartner.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw manteision treulio amser yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae bod yn yr awyr agored yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth allech chi ei ddysgu o fod yn yr awyr agored?
- Beth efallai yw anfanteision bod yn yr awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gallech chi drafod eu hatebion gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 7

Hysbyswch y dysgwyr bod ymchwil yn 2024: [By aged two girls are already playing outside less than boys] (Saesneg yn unig) wedi canfod fod merched dwy flwydd oed neu hŷn yn chwarae llai yn yr awyr agored na bechgyn. Gofynnwch iddynt ystyried yr ymchwil a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ydych chi'n cytuno â'r ymchwil hwn? Pam? Pa dystiolaeth sydd gennych chi?
- Pam ydych chi'n meddwl y gallai'r canfyddiad ymchwil hwn effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol merched, wrth iddynt dyfu'n oedolion ifanc?
- Beth allech chi ei wneud i annog plant ifanc a'u rhieni i chwarae yn yr awyr agored yn amlach?

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gwneud clip fideo neu glip sain un funud o hyd i annog chwarae yn yr awyr agored. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol a llunio map meddwl i ddangos eu syniadau, cyn gwneud eu penderfyniadau.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r negeseuon allweddol yr hoffech eu cyfleu? Pam?
- Sut y byddwch chi'n cyfleu pob neges?
- Ble byddwch chi'n recordio? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei gofnodi? Pam?
- Sut byddwch chi'n golygu eich recordiad?
- Pwy fydd yn gwneud y gwahanol swyddi yn y grŵp? Pam?

### Sgriniau 9-12

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored i recordio eu clip fideo neu sain un funud o hyd, gan feddwl am eu penderfyniadau cynharach.

Gofynnwch iddynt rannu eu clip fideo neu sain gyda'r dosbarth, cymryd adborth a'i ddefnyddio i wella eu clip fideo, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy yw'r gynulleidfa ar gyfer eich recordiad?
- Ble allech chi ddefnyddio'r recordiad er mwyn cyrraedd at eich cynulleidfa?
- Ble mae'r lleoedd gorau? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio eu recordiad i gyrraedd at gymaint o'u cynulleidfa â phosibl ac i fonitro'r adborth y maen nhw'n ei gael.

TASG 3

## SUT MAE MYTHAU A CHWEDLAU YN EIN HYSBRYDOLI?

Yn y dasg hon, bydd dysgwyr yn archwilio chwedloniaeth Cymru ac yn defnyddio AI i wneud cyfres o ddelweddau i ddarlunio stori. Maent yn darllen rhai geiriau i gân a gynhyrchwyd yn defnyddio AI ac yn ysgrifennu geiriau eu hunain ar gyfer trydydd pennill, cyn iddynt osod y geiriau hyn i gerddoriaeth.

### Sgrîn 3

Hysbyswch y dysgwyr bod chwedloniaeth Cymru wedi bod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i lawer o artistiaid, awduron a gwneuthurwyr ffilm. Mae straeon a chwedlau mytholeg Cymru wedi'u haddasu'n ffurfiau amrywiol ar gelfyddyd, gan gynnwys llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau gweledol.

Eglurwch fod y Mabinogion, sef casgliad o chwedlau Cymreig, wedi bod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth arbennig o gyfoethog i artistiaid a bod llawer o straeon a chwedlau eraill o bob rhan o Gymru, sydd wedi cael eu trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf dros gannoedd o flynyddoedd.

## Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr bod Ynys Enlli hefyd yn cael ei hadnabod fel 'Ynys 20,000 o seintiau.'

Gofynnwch iddynt ddarllen y wybodaeth a defnyddio'r rhyngrwyd i ddarganfod mwy am y myth hwn ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- O ble y daeth y gred hon?
- Ym mha ganrif y digwyddodd hyn?
- A oedd unrhyw un yn byw ar yr ynys mewn gwirionedd, neu ai dim ond pobl oedd yn 'ymweld'?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sawl milltir sgwâr yw arwynebedd yr ynys? Sut gallwch chi gyfrifo sawl metr sgwâr yw hyn?
- Pa mor fawr yw bedd, yn eich tyb chi? Pam?
- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bosibl gosod 20,000 o feddau yn y darn hwn o dir?
- Sut y byddech chi'n ei gyfrifo'n rhifiadol?

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr werthuso'r llun trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud i'r llun edrych fel llun go iawn, yn eich barn chi?
- Beth sy'n gwneud iddo edrych yn 'ffug', yn eich barn chi?
- Beth fyddech chi'n ei newid am y ddelwedd er mwyn gwneud iddi edrych yn fwy 'realistig'?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio AI i wneud cyfres o ddelweddau o fynachod yn cyrraedd Ynys Enlli ac yn byw ar yr ynys yn y 6ed ganrif, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa adnodd AI fyddwch chi'n ei ddefnyddio?
- Pa awgrymiadau fyddwch chi'n eu rhoi i AI?
- Sut y byddwch chi'n addasu'r delweddau er mwyn eu gwella?
- Pa fath o weithgareddau y byddai mynachod wedi cymryd rhan ynddynt?
- Sut y byddwch chi'n cyflwyno'ch delweddau?

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu dilyniant o ddelweddau AI â rhai pobl eraill yn y dosbarth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r delweddau yn debyg?
- Sut maen nhw'n wahanol?
- Sut y gellir cyfuno'r delweddau i ddangos stori am fynachod ar eu pererindod i Ynys Enlli?

## Sgriniau 9-10

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y ddau bennill a'r cytgan i gân am Ynys Enlli a grëwyd gan AI Cynhyrchiol. Heriwch nhw i greu geiriau ar gyfer trydydd pennill, ar ôl trafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Am beth fydd eich geiriau chi'n sôn? Pam?
- Sut ydych chi am geisio parhau i gynnal y patrymau rhythm ac odl sydd yn y ddau bennill cyntaf?

## Sgriniau 11-12

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl sut byddan nhw'n gosod eu geiriau i gerddoriaeth, gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar y sgrîn a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o naws ydych chi am ei greu yn eich cân?
- Pa fath o alaw fyddai'n eich helpu i greu'r naws hwn?
- Sut byddwch chi'n cyfansoddi'ch alaw?
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich alaw yn cyd-fynd yn dda â'ch geiriau?
- Pa offerynnau allech chi eu defnyddio i berfformio'ch cân?

Gwahoddwch y dysgwyr i gyfansoddi eu halaw, ymarfer eu cân ac yna'i rhannu gyda'r dosbarth.

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio i feddwl sut roedden nhw'n gweithio.